O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2787 (Cy. 299)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Comins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *21 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *3 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Rhagfyr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Comins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 3 Rhagfyr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, yn Sir Powys, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2083 (Capel Tŷ Cerrig) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r C2082 (The Terrace).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.